Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Penodi Aelod

Dyddiad Cau: 1 Mawrth 2018

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Gwneud Cais

- Datganiad Personol
- CV
- Amserlen Fras
- Datganiad am Amrywiaeth
- Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl
- Cysylltiadau

Atodiad A: Penodi Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad C: Y broses ddethol

Gwneud cais

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais i fod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rôl aelod a benodwyd gan Weinidogion Cymru i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw dod â chyd-destun cenedlaethol i'w arweinyddiaeth effeithiol, helpu i ddatblygu ei gynlluniau strategol ar gyfer y dyfodol, a sicrhau bod ei fusnes yn cael ei drin yn effeithiol ac effeithlon. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Penodi Aelod o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yna cliciwch y botwm ‘Gwneud Cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	1 Mawrth 2018
Llunio rhestr fer:	20 Mawrth 2018
Cyfweliadau:	24 a 25 Ebrill 2018

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltiadau:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Ffôn: 03000 255454
E-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a rôl yr aelodau cysylltwch â:

Daniel Jones, Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru:
Ffôn: 0781 3311045
E-bost: Daniel.Jones@gov.wales

NEU

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

Ffôn: 01874 624437

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 03000 255454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i http://www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Rôl a chyfrifoldebau
Mae aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol, yn unigol, ac ar y cyd, i Lywodraeth Cymru am ddarparu arweinyddiaeth effeithiol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ar gyfer gosod ei bolisïau a sicrhau ei fod yn diwallu ei amcanion o fewn y fframwaith statudol, polisi ac ariannol a osodwyd iddo. Mae gan yr aelodau ddyletswydd i weithredu'n unol â'r gyfraith ar bob adeg, yn ddidwyll ac er budd pennaf y Parc Cenedlaethol, a bod yn ofalus i sicrhau nad yw eu safle cyhoeddus yn cael ei beryglu er budd buddiannau preifat ar unrhyw adeg, na chodi amheuaeth bod hyn wedi digwydd.

Tasgau allweddol

- Arwain Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn arbennig er mwyn diffinio a datblygu ei gyfeiriad strategol a gosod amcanon heriol.

- Sicrhau bod gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo mewn modd mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd.

- Sicrhau bod strategaethau'n cael eu datblygu ar gyfer cyflawni dibenion a dyletswyddau cyffredinol y Parc Cenedlaethol, yn unol â'r polisïau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Monitro perfformiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad yn llawn.

- Sicrhau bod dull Awdurdod y Parc Cenedlaethol o reoli, rheoleiddio a monitro ei weithgareddau, yn ogystal â gweithgareddau'r cyrff eraill y gallai fod yn eu hariannu neu eu cefnogi, yn darparu gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau, rheoleidd-dra a phriodoldeb a chymryd rhan yn y broses gynllunio gorfforaethol.

- Hyrwyddo amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol.

Manyleb y person
Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y penodiad. Rydym yn croesawu ceisiadau gan aelodau sydd heb unrhyw brofiad blaenorol o weithio ar fyrddau'r sector cyhoeddus. Caiff unigolion eu dethol oherwydd eu rhinweddau personol a'u profiad yn hytrach na'u bod yn cynrychioli sefydliadau neu grwpiau penodol.

Er mwyn llwyddo yn y swydd hon mae'n bwysig eich bod yn gallu defnyddio eich sgiliau a'ch profiad mewn ffyrdd sy'n helpu i gyflawni'r dibenion statudol a ddynodwyd i'r Parciau Cenedlaethol.

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn elwa ar ddefnyddio'r ystod eang o sgiliau a gwybodaeth sydd gan ei aelodau a bydd angen i chi allu dod â chyd-destun cenedlaethol i waith Awdurdod y Parc.

Gallai helpu os oes gennych brofiad o weinyddu cyhoeddus ar lefel uwch, wedi rhedeg busnes, bod yn ymddiriedolwr neu weithio i elusen neu wybodaeth arall mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i waith amrywiol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Yn y rownd ddethol bresennol hon mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unigolion sydd â phrofiad cadarn o gynllunio defnydd tir a'r broses rheoli datblygu ond byddai profiad yn un neu fwy o'r meysydd canlynol hefyd yn fanteisiol:

- cadwraeth yr amgylchedd naturiol, hanesyddol, adeiledig a/neu ddiwylliannol
- cyfathrebu a marchnata (technoleg ddigidol yn arbennig)
- rheoleiddio a llywodraethu
- y celfyddydau
- hamdden a chwaraeon
- ynni adnewyddadwy
- addysg
- datblygu cynaliadwy
- y sector busnes
- Amaethyddiaeth
- gweithio gyda chymunedau a grwpiau cymunedol.

Meini Prawf Hanfodol

- Y gallu i wneud cyfraniad cadarn i arweinyddiaeth sefydliadau neu raglenni cymhleth gan ddefnyddio gwybodaeth briodol am berfformiad er mwyn llywio gwelliant a chyflenwi.

- Y gallu i weithredu'n effeithiol mewn rôl strategol neu genedlaethol sy'n dylanwadu ar bolisi ac yn troi polisi yn arfer.

- Y gallu i adeiladu a chyfrannu at dimau yn effeithiol a chyfathrebu'n glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

- Gwerthfawrogiad o bolisi ac arferion cyfredol a busnes Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

- Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i ddeg egwyddor Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 .

- Mae'r Awdurdod yn cynnal ei holl fusnes yn electronig a disgwylir i'r aelodau fod yn ddigon hyddysg mewn TG i allu rheoli calendrau, e-byst a'r holl agendâu a phapurau drwy system rheoli pwyllgor electronig.

Y Gymraeg
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Lleoliad cyfarfodydd
Caiff cyfarfodydd yr Awdurdod eu cynnal fel arfer ym mhrif swyddfa Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu.

Ymrwymiad Amser
Bydd disgwyl i aelodau fod ar gael i weithio o leiaf pedwar diwrnod y mis fel aelodau o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu'r hyfforddiant sefydlu angenrheidiol a mynychu sesiynau datblygu yn ôl y galw drwy gydol tymor eu penodiad. Bydd yr aelodau yn cael y cyfle i eistedd ar weithgorau anffurfiol gyda swyddogion, a gallent ddod yn aelod eiriolwr ar gyfer meysydd penodol o waith.

Hyd y Penodiad
Bydd y penodiad yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2018 ac yn dod i ben ar 31 Mai 2022, ac ar ôl hynny gallai'r Gweinidog ystyried ailbenodi heb gystadleuaeth am dymor pellach.

Taliad Cydnabyddiaeth
Bydd aelodau o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn derbyn cyflog sylfaenol o £3,625 y flwyddyn (caiff lefel y tâl cydnabyddiaeth ei adolygu gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac mae'n seiliedig ar ragdybiaeth o 42 diwrnod o waith y flwyddyn, gyda diwrnodau ychwanegol yn cael eu hystyried fel yr elfen gwasanaeth cyhoeddus). Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a'r ddau gadeirydd pwyllgor yn derbyn cyflog uwch ychwanegol. Caiff aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog eu hystyried fel deiliaid swyddi at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, codir treth ar y ffioedd sy'n daladwy, o dan Atodlen E y Ddeddf Trethi a byddant yn ddarostyngedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1. Caiff y dyledion hyn eu didynnu drwy system gyflogres Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd. Ni chodir TAW ar y ffioedd.

Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill a allai godi wrth wneud gwaith ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau mewn perthynas â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol wrth i chi wneud gwaith ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Os hoffech wybodaeth bellach ynglŷn ag a fyddech yn gymwys ar gyfer lwfansau gofal, cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

Julia Gruffydd, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ffôn: 01874 620400 neu julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk

Cymhwysedd
Mae unigion sydd eisoes wedi gwasanaethu ar Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys cyn-aelodau neu aelodau cyfredol sydd wedi

gwasanaethu, neu y byddant wedi gwasanaethu, am dymor o 10 mlynedd.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 (Atodlen 7, paragraffau 7 a 19) yn amlinellu'r amgylchiadau sy'n anghymhwyso rhywun rhag bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn berthnasol i aelodau presennol a'r rheini sy'n ystyried bod yn aelod.

Yn ei hanfod, os ydych wedi'ch cyflogi'n uniongyrchol gan Awdurdod Lleol cyfansoddol sy'n enwebu aelodau i Awdurdod Parc Cenedlaethol, neu os oes gennych swydd sydd â chyfyngiadau gwleidyddol mewn unrhyw awdurdod lleol ym Mhrydain rydych yn anghymwys i wneud cais. Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn swydd sy'n eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015. <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar wefan yr Awdurdod.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Beth yw'r Parciau Cenedlaethol?
Mae'r Parciau Cenedlaethol yn dirweddau o bwysigrwydd rhyngwladol. Er eu bod yn wledig yn bennaf o ran eu natur maent yn agos at gymunedau trefol ac mae ganddynt botensial sylweddol i gyfoethogi bywydau pobl Cymru, ac ymwelwyr i Gymru, a chyfrannu'n gadarnhaol at economi Cymru. Un o dasgau allweddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw helpu i sicrhau y bydd yr ardaloedd arbennig hyn, yn y dyfodol, yn lleoedd sydd â thirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth gyfoethocach a mwy amrywiol na heddiw, sy'n cael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi gan drawstoriad llawn o'r gymdeithas.

Beth yw eu swyddogaeth?
Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddau ddiben statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

- cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol;

- hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig [y Parc].

Yn ogystal â cheisio cyflawni eu dau ddiben statudol mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddyletswydd i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol.

Os yw'n ymddangos bod gwrthdaro rhwng y dibenion hyn, rhoddir y pwyslais mwyaf ar ddiben cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal o fewn y Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd o weithio
Mae'n ofynnol i bob Awdurdod baratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r polisïau ar gyfer rheoli'r Parc a threfnu a darparu gwasanaethau a chyfleusterau gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae'n cynnwys polisïau ar gyfer rheoli tir yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n ffurfio'r sail ar gyfer cydweithredu nid yn unig gyda sefydliadau cadwraeth statudol a gwirfoddol, ond hefyd gyda thirfeddianwyr cyhoeddus a phreifat eraill. Mae ymgynghori yn ystod y gwaith o baratoi'r Cynllun yn caniatáu i bobl gyfrannu at gyflawni polisïau ymarferol ac mae'n hanfodol ar gyfer cydweithredu sympathetig gyda phreswylwyr ac eraill sydd â diddordeb yn y Parc.

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned wrth baratoi Cynlluniau Rheoli'r Parc Cenedlaethol a byddant yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn awdurdod cynllunio ar gyfer eu hardaloedd ac maent yn gyfrifol am lunio cynlluniau datblygu a rheoli datblygu.

Beth yw eu Strwythur a'u Haelodaeth?
O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn Awdurdodau Lleol â diben arbennig. Maent yn gyrff corfforaethol gyda phwerau gweithredol. Mae dibenion y Parciau yr un peth yng Nghymru a Lloegr ond mae aelodaeth Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn wahanol yn y ddwy wlad.

Yng Nghymru caiff dau draean o'r seddi eu llenwi gan gynghorwyr yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol er mwyn adlewyrchu buddiannau lleol a chaiff un traean eu llenwi gan benodiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru i gynrychioli'r buddiannau cenedlaethol. Wrth benodi aelodau i fod ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, caiff Awdurdodau Lleol eu hannog i ddefnyddio cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau sydd naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol o fewn ffin y Parc.

O ble y daw arian Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol?
Mae Gweinidogion Cymru yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar ffurf Grant y Parciau Cenedlaethol. Daw dau draean o Grant y Parciau Cenedlaethol yn uniongyrchol wrth Weinidogion Cymru ac mae Awdurdodau'r Parciau yn codi lefi ar eu Hawdurdodau Lleol cyfansoddol ar gyfer y traean sy'n weddill. Mae grant ychwanegol ar gael oddi wrth Weinidogion Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf a ragnodwyd. Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn derbyn incwm, er enghraifft, oddi wrth weithgareddau masnachol, ffioedd parcio ceir a ffioedd ceisiadau cynllunio. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn anfon llythyr grant strategol blynyddol sy'n amlinellu blaenoriaethau ac amcanion cytunedig Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Rôl yr Aelodau
Mae'n ofynnol i aelodau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddeall a dangos ymrwymiad i ddibenion y Parc Cenedlaethol a bod yn barod i roi o'u hamser i fynychu cyfarfodydd pwyllgor ac Awdurdod llawn yn rheolaidd, yn ogystal â digwyddiadau datblygu aelodau, gweithgorau, digwyddiadau a chynrychioli'r Awdurdod ar gyrff allanol.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth John Watkins, Pennaeth Tirwedd a Hamdden Awyr Agored Llywodraeth Cymru ac fe fydd hefyd yn cynnwys Melanie Doel, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a Chris Blake, Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Ebrill 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad yn ddiweddarach yn ystod y mis hwnnw.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau ym Mhrif Swyddfa Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad

penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk